



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 216 (Cy. 85)

2016 No. 216 (W. 85)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

Rheoliadau Deddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
2014 (Diwygiadau Canlyniadol) a
Chynllunio Gofal, Lleoli ac
Adolygu Achosion (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2016

The Social Services and Well-being
(Wales) Act 2014 (Consequential
Amendments) and Care Planning,
Placement and Case Review
(Miscellaneous Amendments)
(Wales) Regulations 2016

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o ganlyniad i gychwyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

Mae Deddf 2014 yn disodli, o ran Cymru, y ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol gan Ran 3 o Ddeddf Plant 1989 ("Deddf 1989") ac Atodlen 2 iddi.

Mae'r pwerau o fewn Deddf 2014 wedi eu harfer (yn bennaf drwy ddefnyddio'r pwerau o fewn Rhan 6 o'r Ddeddf honno (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya)) i wneud Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"). Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynllunio gofal a materion cysylltiedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, hynny yw, ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (pa un a ydynt yng ngofal yr awdurdod hwnnw yn rhinwedd gorchymyn gofal o dan adran 31 o Ddeddf 1989 ai peidio).

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made as a result of the commencement of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the 2014 Act").

The 2014 Act replaces, in relation to Wales, the provision formerly made by Part 3 of and Schedule 2 to the Children Act 1989 ("the 1989 Act").

The powers within the 2014 Act have been exercised (in the main using the powers within Part 6 of that Act (looked after and accommodated children)) to make the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015 ("the 2015 Regulations"). The 2015 Regulations make provision about care planning and associated matters for looked after children, that is, for children who are looked after by a local authority (whether or not they are in the care of that authority by virtue of a care order under section 31 of the 1989 Act).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol a chysylltiedig i is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol o ganlyniad i gychwyn Deddf 2014 a gwneud Rheoliadau 2015 drwy arfer y pwerau o fewn Rhan 6 o Ddeddf 2014. Mae'r is-ddeddfwriaeth sydd wedi ei diwygio gan y Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth (yn bennaf) ynghylch cynllunio gofal, penderfyniadau lleoli ac adolygu achosion plant penodol (y rhai sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, sy'n cael eu lletya gan sefydliadau gwirfoddol neu sydd wedi eu lleoli mewn cartref preifat i blant).

Effaith y diwygiadau a wneir yn y Rheoliadau hyn yw na fydd yr is-ddeddfwriaeth gynharach, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cynllunio gofal a materion cysylltiedig ar gyfer plant, ond yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n cael llety gan sefydliadau gwirfoddol ac i blant sydd wedi eu lleoli mewn cartrefi preifat i blant ac y bydd yn cyfeirio at y ddarpariaeth briodol a wneir gan Ddeddf 2014.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

These Regulations make consequential and incidental amendments to secondary legislation required as a consequence of the commencement of the 2014 Act and the making of the 2015 Regulations in exercise of the powers within Part 6 of the 2014 Act. The secondary legislation which is amended by these Regulations makes provision (in the main) about care planning, placement decisions and the review of cases of certain children (those looked after by a local authority, accommodated by voluntary organisations, or placed in a private children's home).

The effect of the amendments made in these Regulations is that the earlier secondary legislation, which makes provision about care planning and associated matters for children, will apply only in relation to children who are provided with accommodation by a voluntary organisation and to children who are placed in private children's homes and will make reference to the appropriate provision made by the 2014 Act.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2016 Rhif 216 (Cy. 85)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

Rheoliadau Deddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
2014 (Diwygiadau Canlyniadol) a
Chynllunio Gofal, Lleoli ac
Adolygu Achosion (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2016

Gwnaed 19 Chwefror 2016

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 24 Chwefror 2016

Yn dod i rym 6 Ebrill 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan y darpariaethau yn yr Atodlen yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(1):

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) a Chynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016.

2016 No. 216 (W. 85)

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

The Social Services and Well-being
(Wales) Act 2014 (Consequential
Amendments) and Care Planning,
Placement and Case Review
(Miscellaneous Amendments)
(Wales) Regulations 2016

Made 19 February 2016

Laid before the National Assembly for Wales
24 February 2016

Coming into force 6 April 2016

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by the provisions in the Schedule make the following Regulations(1):

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (Consequential Amendments) and Care Planning, Placement and Case Review (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2016.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2016.

(1) *Gweler* adran 197(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (decc 4) i gael y diffiniad o "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd" a "rheoliadau".

(1) *See* section 197(1) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4) for the definition of "specified" and "regulations".

Diwygio Rheoliadau Llochesau (Cartrefi Plant a Lleoliadau Maeth) 1991

2.—(1) Mae Rheoliadau Llochesau (Cartrefi Plant a Lleoliadau Maeth) 1991(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y lle priodol mewnosoder—

““remand order” means an order of the court made under section 92 or section 102 of the Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012(2);”, a

(b) yn y diffiniad o “responsible person”, ar ôl y geiriau “emergency protection order” mewnosoder “, remand order”.

(3) Yn rheoliad (4)(1) (tynnu tystysgrif yn ôl), yn lle is-baragraff (c) rhodder—

“(c) where a foster parent providing a refuge fails to comply with any provision contained in—

(i) an agreement to which the foster parent is a party concerning matters to which paragraphs 4 to 11 and 15 of Schedule 5 to the Fostering Services (Wales) Regulations 2003(3) apply, or

(ii) an agreement to which the foster parent is a party concerning matters to which paragraphs 4 to 8 of Schedule 6 to the Fostering Services (Wales) Regulations 2003, or paragraphs 1(2) and (5), and 3(7) and (10) of Schedule 3 to the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015(4) (as the case may be) apply, or

(iii) regulations 24 or 26 of the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015 (in respect of an emergency or temporary placement);”.

Amendment of the Refuges (Children’s Homes and Foster Placements) Regulations 1991

2.—(1) The Refuges (Children’s Homes and Foster Placements) Regulations 1991(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation)—

(a) in the appropriate place insert—

““remand order” means an order of the court made under section 92 or section 102 of the Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012(2);”, and

(b) in the definition of “responsible person”, after the words “emergency protection order” insert “, remand order”.

(3) In regulation 4(1) (withdrawal of a certificate), for sub-paragraph (c) substitute—

“(c) where a foster parent providing a refuge fails to comply with any provision contained in—

(i) an agreement to which the foster parent is a party concerning matters to which paragraphs 4 to 11 and 15 of Schedule 5 to the Fostering Services (Wales) Regulations 2003(3) apply, or

(ii) an agreement to which the foster parent is a party concerning matters to which paragraphs 4 to 8 of Schedule 6 to the Fostering Services (Wales) Regulations 2003, or paragraphs 1(2) and (5), and 3(7) and (10) of Schedule 3 to the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015(4) (as the case may be) apply, or

(iii) regulations 24 or 26 of the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015 (in respect of an emergency or temporary placement);”.

(1) O.S. 1991/1507.

(2) 2012 p. 10.

(3) O.S. 2003/237 (Cy. 35).

(4) O.S. 2015/1818 (Cy. 261).

(1) S.I. 1991/1507.

(2) 2012 c. 10.

(3) S.I. 2003/237 (W. 35).

(4) S.I. 2015/1818 (W. 261).

Diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002

3.—(1) Mae Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 18(1)(ch) (addysg, cyflogaeth a gweithgareddau hamdden), ar ôl “Reoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007(2)” mewnosoder “, Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015,”.

(3) Yn rheoliad 20(2)(e) (anghenion iechyd plant), ar ôl “Reoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007” mewnosoder “, Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015,”.

Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003

4.—(1) Mae Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr “Rheoliadau 2015” (“*the 2015 Regulations*”) yw Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015;”;

(b) yn lle’r diffiniad o “rhiant maeth” rhodder y canlynol—

“ystyr “rhiant maeth” (“*foster parent*”) yw person sydd wedi ei gymeradwyo fel rhiant maeth—

(a) o dan y Rheoliadau hyn, a

(b) ac eithrio yn rheoliadau 24 i 33, mae’n cynnwys person y mae plentyn wedi ei leoli gydag ef o dan reoliad 26 o Reoliadau 2015 (cymeradwyo dros dro berthynas, cyfaill neu berson arall sydd â chysylltiad â phlentyn) neu reoliad 28 o’r Rheoliadau hynny (cymeradwyo dros dro ddarpar fabwysiadwydd penodol fel rhiant maeth);”;

ac

(c) yn lle’r diffiniad o “lleoliad” rhodder y canlynol—

“ystyr “lleoliad” (“*placement*”) yw unrhyw leoliad plentyn gyda rhieni maeth a wneir gan—

Amendment of the Children’s Homes (Wales) Regulations 2002

3.—(1) The Children’s Homes (Wales) Regulations 2002(1) are amended as follows.

(2) In regulation 18(1)(d) (education, employment and leisure activity), after “Review of Children’s Cases (Wales) Regulations 2007(2)” insert “, the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015,”.

(3) In regulation 20(2)(g) (health needs of children), after “Review of Children’s Cases (Wales) Regulations 2007” insert “, the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015,”.

Amendment of the Fostering Services (Wales) Regulations 2003

4.—(1) The Fostering Services (Wales) Regulations 2003(3) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation)—

(a) in the appropriate place insert—

““the 2014 Act” (“*Deddf 2014*”) means the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;

“the 2015 Regulations” (“*Rheoliadau 2015*”) means the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015;”;

(b) for the definition of “foster parent” substitute the following—

““foster parent” (“*rhiant maeth*”) means a person who is approved as a foster parent—

(a) under these Regulations, and

(b) except in regulations 24 to 33, includes a person with whom a child is placed under regulation 26 of the 2015 Regulations (temporary approval of a relative, friend or other person connected with a child) or regulation 28 of those Regulations (temporary approval of a particular prospective adopter as a foster parent);”;

(c) for the definition of “placement” substitute the following—

““placement” (“*lleoliad*”) means any placement of a child with foster parents made by—

(1) O.S. 2002/327 (Cy. 40).

(2) O.S. 2007/307 (Cy. 26).

(3) O.S. 2003/237 (Cy. 35).

(1) S.I. 2002/327 (W. 40).

(2) S.I. 2007/307 (W. 26).

(3) S.I. 2003/237 (W. 35).

(a) awdurdod lleol o dan adran 81 o Ddeddf 2014, neu

(b) corff gwirfoddol o dan adran 59(1)(a) o Ddeddf 1989,

nad yw'n lleoliad ar gyfer mabwysiadu ac, ac eithrio yn Rhan V, mae'n cynnwys lleoliad sy'n cael ei drefnu gan asiantaeth faethu annibynnol sy'n gweithredu ar ran awdurdod lleol, ac mae cyfeiriadau at blentyn sy'n cael ei leoli i'w dehongli yn unol â hynny;"

(3) Yn rheoliad 3(3)(b)(ii) (datganiad o ddiben ac arweiniad plant), yn lle "adran 26(3) o Ddeddf 1989" rhodder "adran 174(1) o Ddeddf 2014".

(4) Yn rheoliad 30 (cofnodion achos ynglŷn â rhieni maeth ac eraill)—

(a) ym mharagraff (2), hepgorer is-baragraff (d);
a

(b) yn lle paragraff (4) rhodder y canlynol—

"(4) Rhaid i awdurdod lleol gadw cofnod achos ar gyfer pob person y mae plentyn wedi'i leoli gydag ef o dan reoliad 26 o Reoliadau 2015 (cymeradwyo dros dro berthynas, cyfaill neu berson arall sydd â chysylltiad â plentyn) neu o dan reoliad 28 o'r Rheoliadau hynny (cymeradwyo dros dro ddarpar fabwysiad ydd penodol fel rhiant maeth) a rhaid iddo gynnwys mewn perthynas â'r person hwnnw—

(a) cofnod ynglŷn â'r lleoliad, gan gynnwys enw, oedran a rhyw pob plentyn sydd wedi'i leoli, dyddiad dechrau'r lleoliad ac, os yw'r lleoliad wedi ei derfynu, dyddiad ac amgylchiadau'r terfyniad; a

(b) yr wybodaeth a sicrhawyd mewn perthynas â'r ymholiadau a wnaed o dan reoliad 26(2) neu reoliad 28 (fel y bo'n briodol) o Reoliadau 2015."

(5) Yn lle rheoliad 31 (cofrestr o rieni maeth) rhodder y canlynol—

"Cofrestr o rieni maeth

31. Rhaid i'r darparnydd gwasanaeth maethu gadw cofrestr ("cofrestr o rieni maeth") a chofnodi ynddi'r manylion canlynol mewn perthynas â phob rhiant maeth—

(a) enw, cyfeiriad, dyddiad geni a rhyw pob rhiant maeth ac, yn achos gwasanaeth maethu awdurdod lleol, bob person y mae wedi lleoli plentyn gydag ef o dan reoliad 26 neu reoliad 28 o Reoliadau 2015,

(a) a local authority under section 81 of the 2014 Act, or

(b) a voluntary organisation under section 59(1)(a) of the 1989 Act,

which is not a placement for adoption and, except in Part V, includes a placement arranged by an independent fostering agency acting on behalf of a local authority, and references to a child who is placed are to be construed accordingly;"

(3) In regulation 3(3)(b)(ii) (statement of purpose and children's guide), for "section 26(3) of the 1989 Act" substitute "section 174(1) of the 2014 Act".

(4) In regulation 30 (case records relating to foster parents and others)—

(a) in paragraph (2), omit sub-paragraph (e); and

(b) for paragraph (4) substitute the following—

"(4) A local authority must maintain a case record for each person with whom a child is placed under regulation 26 of the 2015 Regulations (temporary approval of a relative, friend or other person connected with a child) or under regulation 28 of those Regulations (temporary approval of a particular prospective adopter as a foster parent) which must include in relation to that person—

(a) a record in relation to the placement, including the name, age and sex of each child placed, the date on which the placement began and, if the placement has been terminated, the date and circumstances of the termination; and

(b) the information obtained in relation to the enquiries carried out under regulation 26(2) or regulation 28 (as appropriate) of the 2015 Regulations."

(5) For regulation 31 (register of foster parents) substitute the following—

"Register of foster parents

31. The fostering services provider must maintain a register (a "register of foster parents") and enter in it the following particulars in relation to each foster parent—

(a) the name, address, date of birth and sex of each foster parent and, in the case of a local authority fostering service, of each person with whom it has placed a child under regulation 26 or regulation 28 of the 2015 Regulations,

- (b) dyddiad y gymeradwyaeth a phob adolygiad o'i gymeradwyaeth (yn ôl fel y digwydd), ac
- (c) telerau cyfredol y gymeradwyaeth (os oes rhai).”.
- (6) Yn rheoliad 32(2) (cadw cofnodion a chyfrinachedd cofnodion), yn lle “reoliad 38(2)” rhodder “reoliad 26 neu reoliad 28 o Reoliadau 2015”.
- (7) Yn rheoliad 33 (dyletswydd gyffredinol yr awdurdod cyfrifol)—
- (a) yn y geiriau agoriadol, yn lle “awdurdod cyfrifol” rhodder “gorff gwirfoddol”;
- (b) ym mharagraff (a), yn lle “(yn ôl fel y digwydd) adran 22(3) neu” rhodder “adran”; ac
- (c) yn y pennawd, yn lle “yr awdurdod cyfrifol” rhodder “y corff gwirfoddol”.
- (8) Yn rheoliad 34 (gwneud lleoliadau)—
- (a) yn lle'r geiriau agoriadol ym mharagraff (1) rhodder—
“(1) Ni chaiff corff gwirfoddol leoli plentyn gyda rhiant maeth ond—”;
- (b) ym mharagraff (1)(a)(i), yn lle “yr awdurdod cyfrifol” rhodder “y sefydliad gwirfoddol”;
- (c) ym mharagraff (2)(ch), yn lle “rheoliad 40” rhodder “rheoliad 29 o Reoliadau 2015 (asiantaethau maethu annibynnol – cyflawni swyddogaethau awdurdod cyfrifol)”; a
- (d) ym mharagraff (3), yn lle “awdurdod cyfrifol” rhodder “corff gwirfoddol”.
- (9) Yn rheoliad 35 (goruchwyllo lleoliadau)—
- (a) yn lle “awdurdod cyfrifol”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “corff gwirfoddol”;
- (b) yn lle “awdurdod”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “corff”; ac
- (c) hepgorer paragraff (2).
- (10) Yn rheoliad 36 (terfynu lleoliadau)—
- (a) yn lle “awdurdod cyfrifol”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “corff gwirfoddol”; a
- (b) ym mharagraff (1), yn lle “(yn ôl fel y digwydd) adran 22(3) neu” rhodder “adran”.
- (11) Yn rheoliad 37(1) (lleoliadau byr-dymor), yn lle “awdurdod cyfrifol” rhodder “corff gwirfoddol”.
- (12) Hefgorer rheoliad 38 (lleoliadau brys a di-oed gan awdurdodau lleol).
- (13) Yn rheoliad 39 (lleoliadau y tu allan i Gymru), hepgorer paragraff (2).
- (b) the date of approval and of each review of approval (as the case may be), and
- (c) the current terms of the approval (if any).”.
- (6) In regulation 32(2) (retention and confidentiality of records), for “regulation 38(2)” substitute “regulation 26 or regulation 28 of the 2015 Regulations”.
- (7) In regulation 33 (general duty of responsible authority)—
- (a) in the opening words, for “A responsible authority” substitute “A voluntary organisation”;
- (b) in paragraph (a), for “(as the case may be section 22(3) or” substitute “section”; and
- (c) in the heading, for “responsible authority” substitute “voluntary organisation”.
- (8) In regulation 34 (making of placements)—
- (a) for the opening words of paragraph (1) substitute—
“(1) A voluntary organisation may only place a child with a foster parent if—”;
- (b) in paragraph (1)(a)(i), for “responsible authority” substitute “voluntary organisation”;
- (c) in paragraph (2)(d), for “regulation 40” substitute “regulation 29 of the 2015 Regulations (independent fostering agencies – discharge of authority functions)”; and
- (d) in paragraph (3), for “responsible authority” substitute “voluntary organisation”.
- (9) In regulation 35 (supervision of placements)—
- (a) for “responsible authority”, in each place it occurs, substitute “voluntary organisation”;
- (b) for “authority”, in each place it occurs, substitute “organisation”; and
- (c) omit paragraph (2).
- (10) In regulation 36 (termination of placements)—
- (a) for “responsible authority”, in each place it occurs, substitute “voluntary organisation”; and
- (b) in paragraph (1), for “(as the case may be) section 22(3) or” substitute “section”.
- (11) In regulation 37(1) (short term placements), for “responsible authority” substitute “voluntary organisation”.
- (12) Omit regulation 38 (emergency and immediate placements by local authorities).
- (13) In regulation 39 (placements outside Wales), omit paragraph (2).

(14) Hefgorer rheoliad 40 (asiantaethau maethu annibynnol – cyflawni swyddogaethau awdurdod lleol).

(15) Yn rheoliad 42B(1) (hysbysu am gydymffurfedd), yn lle “Deddf 1989 a Deddf 2000” rhodder “Deddf 1989, Deddf 2000 a Deddf 2014”.

(16) Yn Atodlen 6 (materion a rhwymedigaethau mewn cytundebau lleoliad maeth)—

- (a) yn lle “awdurdod cyfrifol”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “corff gwirfoddol”; a
- (b) yn lle “awdurdod”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “corff”.

Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

5.—(1) Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

- (a) yn y lle priodol, mewnosoder—
“ystyr “derbyn gofal” (“*looked after*”) yw—
 - (a) derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru yn unol ag adran 74(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(2), neu
 - (b) derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr yn unol ag adran 22(1) o Ddeddf 1989;”;
- (b) yn lle’r diffiniad o “swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol” rhodder—
“ystyr “swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol” (“*social services functions*”) yw swyddogaethau o fewn ystyr adran 143 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac Atodlen 2 iddi;”.

(3) Yn rheoliad 12(2) (gofyniad i ddechrau cofnod achos i blentyn), ar ôl “o dan Ddeddf 1989” mewnosoder “, neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (yn ôl y digwydd)”.

(4) Ar ôl rheoliad 12 mewnosoder—

(14) Omit regulation 40 (independent fostering agencies – discharge of local authority functions).

(15) In regulation 42B(1) (compliance notification), for “the 1989 Act and the 2000 Act” substitute “the 1989 Act, the 2000 Act and the 2014 Act”.

(16) In Schedule 6 (matters and obligations in foster placement agreements)—

- (a) for “responsible authority”, in each place it occurs, substitute “voluntary organisation”; and
- (b) for “authority”, in each place it occurs, substitute “organisation”.

Amendment of the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005

5.—(1) The Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation)—

- (a) in the appropriate place, insert—
““looked after” means—
 - (a) looked after (“*derbyn gofal*”) by a local authority in Wales in accordance with section 74(1) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(2), or
 - (b) looked after by a local authority in England in accordance with section 22(1) of the 1989 Act;”;
- (b) for the definition of “social services functions” substitute—
““social services functions” (“*swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol*”) means functions within the meaning of section 143 of and Schedule 2 to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;”.

(3) In regulation 12(2) (requirement to open child’s case record), after “under the 1989 Act” insert “, or the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (as the case may be)”.

(4) After regulation 12 insert—

(1) O.S. 2005/1313 (Cy. 95).
(2) 2014 dccc 4.

(1) S.I. 2005/ 1313 (W. 95).
(2) 2014 anaw 4.

“Dyletswyddau’r asiantaeth fabwysiadu pan fo plentyn i gael ei leoli yn unol ag adran 81(11) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

12A.—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys pan fo penderfyniad wedi’i wneud i leoli plentyn yn unol â rheoliad 28 o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(1) (cymeradwyo dros dro ddarpar fabwysiadydd penodol fel rhiant maeth).

(2) Rhaid i’r asiantaeth fabwysiadu—

- (a) hysbysu’r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig o’r penderfyniad i leoli’r plentyn gyda’r darpar fabwysiadydd; a
- (b) esbonio’r penderfyniad i’r plentyn mewn modd priodol, gan roi sylw i oedran a dealltwriaeth y plentyn.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr “lleoli” (“*placed*”) yw wedi’i leoli yn unol ag adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 pan fo awdurdod lleol wedi’i fodloni, yn unol ag adran 81(11) o’r Ddeddf honno, y dylai’r plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd penodol sydd wedi cael cymeradwyaeth dros dro fel rhiant maeth.”

(5) Yn rheoliad 14 (gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth ar gyfer rhiant neu warcheidwad y plentyn neu bobl eraill a chanfod eu dymuniadau a’u teimladau)—

(a) ar ôl paragraff (1)(b)(iii), hepgorer “ac” a mewnosoder—

“(iv) goblygiadau cyfreithiol i blentyn gael ei leoli yn unol ag adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyda darpar fabwysiadydd penodol sydd wedi cael cymeradwyaeth dros dro fel rhiant maeth yn dilyn ystyriaeth yn unol ag adran 81(11) o’r Ddeddf honno; ac”; a

(b) ym mharagraff (3)(a), yn lle “a (iii)” rhodder “(iii), a (iv)”.

(6) Yn rheoliad 38(1) (swyddogion adolygu annibynnol), yn lle “adran 26(2A) o Ddeddf 1989” rhodder “adran 100 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014”.

“Duties of adoption agency when a child is to be placed in accordance with section 81(11) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014

12A.—(1) This regulation applies where a decision has been made to place a child in accordance with regulation 28 of the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015(1) (temporary approval of a particular prospective adopter as a foster parent).

(2) The adoption agency must—

- (a) notify the prospective adopter in writing of the decision to place the child with the prospective adopter; and
- (b) explain the decision to the child in an appropriate manner, having regard to the child’s age and understanding.

(3) For the purposes of this regulation “placed” (“*lleoli*”) means placed in accordance with section 81 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 where a local authority is satisfied, in accordance with section 81(11) of that Act, that the child ought to be placed for adoption with a particular prospective adopter who has been granted temporary approval as a foster parent.”

(5) In regulation 14 (requirement to provide counselling and information for, and ascertain the wishes and feelings of, the parent or guardian of the child and others)—

(a) after paragraph (1)(b)(iii), omit “and” and insert—

“(iv) the legal implications of a child being placed in accordance with section 81 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 with a particular prospective adopter who has been granted temporary approval as a foster parent following consideration in accordance with section 81(11) of that Act; and”; and

(b) in paragraph (3)(a), for “and (iii)” substitute “(iii), and (iv)”.

(6) In regulation 38(1) (independent reviewing officers), for “section 26(2A) of the 1989 Act” substitute “section 100 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”.

(1) O.S. 2015/1818 (Cy. 261).

(1) S.I. 2015/1818 (W. 261).

(7) Yn rheoliad 46 (addasu Deddf 1989 o ran mabwysiadu), hepgorer paragraffau (1) a (2).

(8) Ar ôl rheoliad 46 (addasu Deddf 1989 o ran mabwysiadu), mewnosoder—

“Addasu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â mabwysiadu

46A—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys—

- (a) pan awdurdodir awdurdod lleol i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu; neu
- (b) pan fydd plentyn a leolwyd ar gyfer ei fabwysiadu gan awdurdod lleol yn llai na chwe wythnos oed.

(2) Pan fydd paragraff (1) yn gymwys—

